

CYNGOR BRO MACHNO

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 30ain o Ionawr 2020 yn Festri Salem am 7.30

Presennol: Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Eifion Davies, Colin Jones, Claire Roberts, Eryl Owain, Luned McFadden, Geraint Thomas a'r clerc, Elfed Williams.

Cofnodion: Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 14eg o Dachwedd 2019 fel rhai cywir, Colin Jones yn cynnig a Claire Roberts yn eilio.

Materion yn codi:

Rali RAC Cymru: Wedi cysylltu â threfnwyr y rali, cafwyd addewid bod trefniadau mewn lle i osgoi'r problemau a gafwyd yn ystod Rali 2019

Materion ffyrdd: Cadarnhawyd bod ffordd Glasgwm wedi ei hatgyweirio. Nodwyd bod angen clirio gro o'r ffordd ger Pen y Bryn a bod angen sylw i'r arwydd *Ildiwch* ger y Machno.

Giât ar waelod llwybr y Waen: Cadarnhawyd bod y giât wedi ei gosod a diolchwyd i Geraint am wneud y gwaith.

Toiledau: Adroddodd y clerc fod y gwaith cyfreithiol o drosglwyddo'r toiledau i'r Cyngor Cymuned wedi ei gwblhau a chadarnhwyd y dylai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd arwyddo'r dogfennau perthnasol. Gofynnwyd i'r clerc drefnu bod cyflenwad o offer glanhau ac ati ar gael. Penderfynwyd ceisio cael gwirfoddolwyr i ymgymryd â'r gwaith glanhau trwy ofyn i fudiadau a chymdeithasau i gynorthwyo gan gynnig cyfraniad o £48 y mis i bob mudiad fyddai'n cefnogi.

Swydd Clerc: Nid oes ceisiadau wedi eu derbyn felly penderfynwyd dal ati i hysbysebu ac i wneud ymholiadau. Dywedodd y clerc ei fod yn fodlon parhau hyd nes y gellir penodi clerc Newydd.

Materion Ariannol:

Cyflwynwyd diweddariad o'r sefyllfa ariannol. Cyflwynodd y clerc rag-amcan o incwm a gwariant y Cyngor am flwyddyn ariannol 2020-21. Gan ystyried y bydd y toiledau'n eiddo i'r cyngor erbyn hynny, penderfynwyd codi'r praesept i £5500.

Materion eraill:

Newidiadau i drefniadau bysiau cyhoeddus: Nid oedd gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn gan Gyngor Sir Conwy. Penderfynwyd gwahodd Haf Jones o'r Cyngor Sir i gyfarfod cyhoeddus i egluro'r cynllun.

Llygod Mawr: Derbyniwyd adroddiad fod nifer o dai yn White Street a rhannau o Ffordd Cwm yn dioddef o bla o lygod mawr. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngorydd Sir pa fodd y gallai'r Cyngor Sir geisio datrys y broblem.

Maes parcio'r Machno: Oherwydd bod nifer fawr o hen gerbydau yn y maes parcio, penderfynwyd cysylltu â'r Parc Cenedlaethol i bwysu arnynt i gymryd camau i ddelio â'r sefyllfa.

